

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd
Dydd Mawrth 21ain Gorffennaf, 11.30-12.30
Telegynhadledd



<p><u>Yn Bresennol</u></p> <p>Aelodau'r Bwrdd: Y Cynghorydd Huw Thomas (Cadeirydd) Charles Janczewski (Is-gadeirydd) Paul Orders Sarah McGill Fiona Kinghorn Wendy Gunney Abigail Harris Jo Salway Len Richards Huw Jakeway Sheila Hendrickson-Brown Mark Brace Gareth O'Shea</p> <p>Ymddiheuriadau: Hannah Williams</p> <p>Hefyd yn bresennol: Gareth Newell Sian Sanders Nathan Swain Clive Bailey Anne Wei Suzanne Wood</p>	<p>Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) Cadeirydd Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, (BIP CaF) Prif Weithredwr, CC Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro Prif Uwch-arolygydd Dros Dro, Heddlu De Cymru Cyfarwyddwr Cynllunio (BIP Caerdydd a'r Fro) Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro Prif Swyddog Tân, GTADC Prif Swyddog Gweithredol, C3SC Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu, Heddlu De Cymru Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC</p> <p>Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC)</p> <p>Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC Rheolwr Gweithredol Diogelwch Cymunedol, Cydlyniant ac Ymgysylltu, CC Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC Rheolwr Partneriaethau a Chynllunio Strategol, BIP CaF Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd y Cyhoedd Cymru</p>
--	---

Rhif	Eitem Agenda	
1 / 2	<p>Croeso a Chyflwyniadau Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 22 Mehefin 2020. Nodwyd bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.</p>	
3.	<p>Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda 2020-2023</p> <p>Cyflwynwyd dau ddewis i'r BGC ar gyfer lansio'r cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda, a chytunwyd y canlynol:</p> <p>Opsiwn 2: Lansio'r Cynllun ar 27 Gorffennaf 2020 o amgylch y themâu canlynol – teithio iach, gweithleoedd iach a chymunedau iach. Y lansiad i gael ei gefnogi gan ymgyrch cyfryngau cymdeithasol, gan hyrwyddo negeseuon allweddol.</p> <p>Mae tystiolaeth gadarn yn bodoli i gefnogi cysylltiadau rhwng canlyniadau COVID 19, bod dros bwysau a ffyrdd o fyw afiach. Cytunwyd bod lansio Symud Mwy, Bwyta'n Dda yn rhan o'r ymateb i feithrin gwydnwch yn erbyn COVID 19.</p> <p>Anogir sefydliadau partner i gyfrannu at negeseuon ar y cyd i lansio a hyrwyddo'r Cynllun Symud, Mwy, Bwyta'n Dda.</p> <p>Gellir dod o hyd i Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y cyfeirir ato yn ystod yr eitem hon yma.</p>	<p>BIP Caerdydd a'r Fro</p> <p>BIP Caerdydd a'r Fro Pawb</p>
4.	<p>Ailgychwyn ac Adfer</p> <p>Rhoddodd aelodau'r Bwrdd amlinelliad o gynlluniau gweithredol eu sefydliad ar gyfer llacio ymhellach y cyfyngiadau cloi.</p> <p>Mae'r materion allweddol a amlygwyd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae meysydd chwarae yn parhau i gael eu hagor, yn amodol ar asesiadau risg • Mae nifer yr ymwelwyr yng nghanol y ddinas yn cynyddu ac mae paratodau'n cael eu gwneud ar gyfer ailagor allfeydd bwyd a diod ymhellach. • Aethpwyd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ym Mae Caerdydd drwy ddull partneriaeth yr Heddlu a'r Cyngor. Bydd newidiadau i economi'r nos hefyd yn gofyn am gapasiti ychwanegol gan yr heddlu • Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith rhwng y Cyngor a Heddlu De Cymru i reoli ardaloedd cyhoeddus canol y ddinas yn ystod adferiad Covid-19 	

Rhif	Eitem Agenda	
	<ul style="list-style-type: none"> • Tynnodd y Bwrdd Strategol Profi, Olrhain, Diogelu sylw at yr angen am gynllunio senarios partneriaeth yn ymwneud â rheoli cyfyngiadau symud lleol • Model ffôn yn gyntaf 24/6 ar gyfer gofal brys i'w lansio, 5 Awst. Gellir dod o hyd i Ddatganiad Llywodraeth Cymru yma. <p>Cafwyd trafodaeth bellach ar y cysylltiadau rhwng COVID 19 ac anghydraddoldebau iechyd. Tynnodd Sheila Hendrickson Brown sylw at waith Grŵp Cynghori BAME COVID-19 y Prif Weinidog.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r adroddiad i'w weld yma. • Mae'r datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'w weld yma. <p>CAMAU GWEITHREDU:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod y BGC i'w drefnu ddechrau mis Medi, er mwyn i unrhyw newidiadau gael eu gwneud i Strategaeth Un Blaned Caerdydd y Cyngor cyn ei ystyried yn y Cabinet ar 17 Medi 2020. • Cyfarfod y BGC ym mis Medi i ystyried hefyd Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd BIP Caerdydd a'r Fro a gwaith Adferiad Gwyrdd Tasg a Gorffen Llywodraeth Cymru. • Datganiad i'r wasg gan y BGC i'w gyhoeddi yn pwysleisio, er gwaethaf llacio'r cyfyngiadau cloi, ein bod yn dal i fod yng nghanol argyfwng iechyd cyhoeddus ac nad yw risgiau COVID 19 wedi diflannu. • Adeiladau Uchel i'w hystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol • C3SC i rannu crynodeb o'r pryderon a'r materion allweddol sy'n cael eu codi 	<p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Abi Harris/Gareth O'Shea</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>GTADC C3SC</p>
5.	<p>Diogelwch Cymunedol</p> <p>Nodwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a Diogelu.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ar faterion yn ymwneud â'r gymuned Sipsiwn–Teithwyr yn Nwyrain Caerdydd. Cadarnhaodd Heddlu De Cymru fod gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid ac arweinwyr yn y gymuned ac awdurdodau cyfagos.</p>	
6.	<p>Unrhyw fater arall</p> <p><i>Tasglu Cydraddoldeb Hiliol</i></p> <p>Gellir dod o hyd i adroddiad Cabinet y Cyngor sy'n sefydlu'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol yma.</p>	

Rhif	Eitem Agenda	
	CAM GWEITHREDU: <ul style="list-style-type: none"><li data-bbox="263 264 1157 336">• Tasglu Cydraddoldeb Hiliol i sicrhau ymgysylltiad gan sefydliadau partner	Sarah McGill
	Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf: BGC Caerdydd - dyddiad Medi i'w gadarnhau	